



LLYFRYN

GWIRFODDOLWYR



GWIRFODDOLI, BOD YN WEITHGAR, A BOD YN GREADIGOL.

Bydd y llyfryn hwn yn eich helpu i wneud y gorau o'ch profiad fel gwirfoddolwr.

Evch i wefan Hac Darllen i wybod rhagor:

www.readingagency.org.uk/readinghack

Enw:

Llyfrgell:

Manylion cyswllt y llyfrgell:

.....
.....
.....
.....



HELÔ!

Pob hwyl i chi yn y sialens newydd rydych yn ymgymryd â hi – naill ai wrth helpu plant i ddarllen dros wyliâu'r haf, gwirfoddoli yn eich llyfrgell leol, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau Hac Darllen!

Defnyddiwch y llyfryn hwn i wneud pethau fel cofnodi nifer eich oriau gwirfoddoli, rhestru'r llyfrau rydych wedi'u darllen, neu nodi syniadau.

Gallwch wella eich CV trwy rannu eich profiad ar-lein er mwyn lawrlwytho CV a thystysgrif.

I gael gwybod mwy am sut i gymryd rhan, ewch i:
www.readingagency.org.uk/readinghack

BETH YW HAC DARLLEN?

Rhaglen newydd, genedlaethol, yw Hac Darllen, a'i nod yw annog pobl ifanc rhwng 13 a 24 oed, fel chi, i rannu, ysbrydoli a dathlu darllen. Trwy gyfrwng y rhaglen hon gall pobl ifanc fwynhau pob math o bethau sy'n gysylltiedig â darllen.

Bydd y rhaglen yn cael ei threialu yr haf hwn, a'i lansio tua diwedd 2015. Trwy gynnig gwirfoddoli nawr ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf, rydych yn arloesi fel Hac Darllen.

Pam Hac Darllen? Wel, mae 'hac' yn disgrifio dull o newid rhywbeth mewn ffordd anghyffredin. Rydym am eich annog i feddwl am ddulliau newydd, gwahanol, i berswadio pobl ifanc i ddarllen, ac i chi ac eraill gael mwy o bleser o ddarllen.

DECHRAU SIARAD

SGILIAU CYFATHREBU

Gwrando ar bobl, a siarad gyda nhw, yw'r sail i ddatblygu sgiliau cyfathrebu. Fel gwirfoddolwr, gallech fod yn sgwrsio gyda phlant a'u teuluoedd am y llyfrau maent wedi eu darllen.

GWELLA'CH SGILIAU!

Nodwch ddau weithgaredd y gallech eu gwneud fel gwirfoddolwr, a fyddai'n gwella eich sgiliau cyfathrebu. Holwch eich rheolwr yn y llyfrgell os ydych yn ansicr.

Gweithgareddau cyfathrebu

- 1
- 2

Ewch i wefan Hac Darllen i lawrlwytho copi o'ch tystlythyr a'ch tystysgrif, ac am gyfle i ennill gwobrau gwych: www.readingagency.org.uk/readinghack

PWYNTIAU PWYSIG

Mae angen gwneud mwy na siarad. Mae gwrando yn un mor bwysig. Gwrandewch yn astud, a cheisio ateb unrhyw gwestiynau'n llawn. Os nad ydych yn gwybod yr ateb, gofynnwch i staff y llyfrgell.



Byddwch yn ymwybodol o iaith y corff. Nid yw plethu'ch breichiau o'ch blaen yn gwneud i chi edrych yn groesawgar, a gall dylyfu gŕen wneud i chi edrych fel petaech wedi diflasu.



Ceisiwch siarad yn bwylllog, ac esbonio'r cyfan yn glir. Cofiwch na fydd pob teulu wedi clywed am Sialens Ddarllen yr Haf.

Byddwch yn bositif ac yn frwdfrydig – a chofiwch wenu!



Meddyliwch am y math o gwestiynau y gallech eu gofyn i blant pan fyddwch yn ceisio'u hannog i siarad am lyfr. Er enghraifft, ceisiwch osgoi cwestiynau y gellir eu hateb â dim ond 'ie' neu 'nage'.



BOD YN DREFNUS

SGILIAU TREFNU

Beth bynnag yr hoffech chi fod yn y dyfodol – entrepreneur neu athro/athrawes – mae'r sgiliau hyn yn allweddol i unrhyw yrfa. Mae trefnydd da yn llwyddo i gynllunio a rheoli'i lwyth gwaith, ond hefyd yn gwneud pethau holl bwysig megis cyrraedd y gwaith mewn da bryd, a threfnu'i amserlen.

GWELLA'CH SGILIAU!

Nodwch ddau weithgaredd y gallech eu gwneud fel gwirfoddolwr, a fyddai'n gwella eich sgiliau trefnu. Holwch eich rheolwr yn y llyfrgell os ydych yn ansicr.

Gweithgareddau trefnu

- 1
- 2

Evch i wefan Hac Darllen i lawrlwytho copi o'ch tystlythyr a'ch tystysgrif, ac am gyfle i ennill gwobrau gwych: www.readingagency.org.uk/readinghack

PWYNTIAU PWYSIG



Mae bod ar amser yn holl bwysig! Bydd prydlondeb bob amser yn creu argraff dda ar eich rheolwr.

Ceisiwch fod yn ymwybodol o bopeth o'ch cwmpas, a meddwl am bethau sydd efallai angen eu gwneud yn y llyfrgell. Mae trefnydd da yn gallu meddwl ar ei draed, a chynllunio un cam ymlaen bob amser.



Rhowch ddigon o amser

i chi eich hun bob dydd i gwblhau eich tasgau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth sydd angen i chi ei wneud cyn dechrau ar dasg.



Gofynnwch i staff y llyfrgell

am gyngor. Gallwch ddsygu llawer o'u profiadau nhw.



CYDWEITHIO

SGILIAU GWAITH TÎM

Mae'r gallu i gydweithio â phobl eraill yn sgîl y mae pob cyflogwr yn ei gwerthfawrogi. Byddwch yn treulio'r haf yn gweithio ochr yn ochr â thîm y llyfrgell, a gwirfoddolwyr eraill, i rannu hoffter o ddarllen – cyfle perffaith, felly, i ddysgu sut i fod yn aelod gwerthfawr o dîm yn y gweithle.

GWELLA'CH SGILIAU!

Nodwch ddau weithgaredd y gallech eu gwneud fel gwirfoddolwr, a fyddai'n gwella eich sgiliau fel aelod o dîm. Holwch eich rheolwr os ydych yn ansicr.

Gweithgareddau gwaith tîm

- 1
- 2

Ewch i wefan Hac Darllen i lawrlwytho copi o'ch tystlythyr a'ch tystysgrif, ac am gyfle i ennill gwobrau gwych: www.readingagency.org.uk/readinghack

PWYNTIAU PWYSIG

Defnyddiwch eich cryfderau, a gwirfoddoli i wneud tasgau y byddwch yn siŵr o'u mwynhau. Gallwch gynnig dangos y ffordd i aelodau eraill o'r tîm sy'n llai hyderus.



Cymerwch sylw

o bob beirniadaeth adeiladol neu gyngor a roddir i chi.



Manteisiwch ar gryfderau aelodau eraill o'r tîm a'u cysgodi wrth iddynt gyflawni tasgau sy'n newydd i chi.

Chwaraewch eich rhan!



Cofiwch barchu syniadau pobl eraill, hyd yn oed os nad ydych yn cytuno â nhw.



PETHAU I'W GWNEUD

GWIRFODDOLI O GWMPAS Y LLYFRGELL



Annog plant i ddefnyddio cyfrifiaduron cyhoeddus y llyfrgell i ymweld â gwefan Sialens Ddarllen yr Haf: www.summerreadingchallenge.org.uk



Tacluso'r silffoedd – mae plant yn aml yn gadael y silffoedd yn flêr iawn!



Gofynnwch i'ch rheolwr a oes unrhyw waith paratoi y gallech ei wneud ar gyfer sesiynau gweithgareddau, e.e. torri allan, neu greu templedi.


AR ADEGAU TAWEL

DECHRAU HAC DARLLEN



Ysgrifennwch adolygiad o'ch hoff lyfr neu drydar adolygiad byr mewn 140 llythyren, yn cynnwys yr hashnod #hacdarllen neu #readinghack

Dechreuwch sgwrs # ar Trydar am eich hoff lyfr, gan annog eraill i'w ddarllen a'i adolygu.



Lluniwch arddangosfa 'Coeden Cerddi' yn y llyfrgell, neu ar dir y llyfrgell gan ddefnyddio coeden go iawn.

Dewiswch ddau lyfr rydych yn eu hoffi, llungopio'r tudalennau, a'u cyfuno i greu stori newydd sbon.



Lluniwch lyfr neu flwch adborth, a'i arddangos yn y llyfrgell.

Trefnwch noson o farddoniaeth 'meic agored', neu noson o ddangos ffilm a addaswyd o stori.



Trafodwch gyda'ch rheolwr beth allwch chi ei wneud, a chwiliwch am syniadau yn www.readingagency.org.uk/readinghack



TRAFOD EICH PROFIADAU

Mae eich CV neu eich cyfweiliad cyntaf am swydd yn debyg i werthu rhywbeth. Trwy wirfoddoli, byddwch wedi ennill llwythi o brofiad. Nawr ewch ati i werthu'ch hun!

CYFATHREBU

CV

Dysgais sgiliau cyfathrebu cryf trwy siarad â phlant a'u teuluoedd ynghylch cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf. O ganlyniad, rwyf wedi datblygu fy sgiliau cyfathrebu.

TREFNU

Dyfyniad cyfweiliad

“Fel gwirfoddolwr gyda Sialens Ddarllen yr Haf, dangosais awydd i gyfrannu, a dull positif o weithio ar fy liwt fy hun, trwy gadw llyfrgell y Plant yn drefnus a thaclus drwy'r adeg. Trwy wneud hyn, datblygais fy sgiliau trefnu.”

GWAITH TÎM

CV

Rwy'n gweithio'n dda fel aelod o dîm, fel a ddangosir gan fy ngwaith yn gwirfoddoli ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf. Datblygais fy sgiliau trwy'r profiad a gefais yn gweithio fel aelod allweddol o dîm oedd yn hyrwyddo darllen yn y gymuned.

GOHEBU

Dyfyniad

“Ysgrifennais flog ar-lein yn sôn am lwyddiant Sialens Ddarllen yr Haf yn fy llyfrgell leol, ac ymddangosodd y blog ar wefan genedlaethol The Reading Agency. Trwy'r profiad hwn, rwyf wedi datblygu fy sgiliau fel gohebydd cymdeithasol.”

EDRYCH YMLAEN

Gobeithio eich bod wedi cael amser gwych yn gwirfoddoli i helpu plant i ddarllen, cyfarfod â phobl newydd, a datblygu sgiliau fydd yn ddefnyddiol iawn i chi yn y dyfodol.

Efallai eich bod yn meddwl: 'Beth nesaf?'

Ewch i wefan Hac Darllen, neu siarad gyda'ch rheolwr yn y llyfrgell i weld sut y gallech ddatblygu eich sgiliau a'ch profiad ymhellach. Efallai y gallech wirfoddoli mewn grŵp darllen plant, helpu gyda gŵyl lyfrau, neu sefydlu grŵp ar gyfer pobl ifanc eraill yn eich ardal.

DECHRAU DARLLEN

Cadwch gofnod o bopeth rydych chi wedi'i ddarllen yr haf hwn.

WEDI DARLLEN	SGÔR	SYLWADAU
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	
	★ ★ ★ ★ ★	

